



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

2.00 PM, DYDD IAU, 19 TACHWEDD 2020

VIA MICROSOFT TEAMS

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y
cyfarfod**

Rhan 1

1. Datganiadau o fuddiannau
2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (*Tudalennau 5 - 36*)
 - 24 Hydref 2019
 - 18 Rhagfyr 2019
 - 16 Ionawr 2020
 - 23 Ionawr 2020
 - 23 Ionawr 2020
3. Dysgu cyfunol yng nghyfnod allweddol 4 ac arholiadau ar gyfer 2021 (*Tudalennau 37 - 42*)
4. Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot - Rhaglen Gefnogaeth yr Haf (*Tudalennau 43 - 52*)
5. Adroddiad y Gwasanaeth Cynhwysiad am Drosolwg o Gefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (*Tudalennau 53 - 60*)
6. Diweddariad llafar ar Effaith COVID-19 ar ddiweithdra ac ymddieithrio ymysg pobl ifanc - Gwaith y Ganolfan Ieuenctid
7. Blaenraglen Waith 2019/2 (*Tudalennau 61 - 62*)

8. Eitemau brys
(Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
9. Mynediad i gyfarfodydd
Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

Rhan 2

10. Adroddiad y Gwasanaeth Cynhwysiad am Drosolwg o Gefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol - Atodiad 1
(Wedi'i eithrio o dan Baragraff 13) (*Tudalennau 63 - 76*)

K.Jones
Prif Weithredwr

Canolfan Ddinesig
Port Talbot

Dydd Gwener, 13 Tachwedd 2020

Aelodaeth y Pwyllgor:

Cadeirydd: S.H.Reynolds

Is-gadeirydd: R.Mizen

Cynghorwyr: M.Crowley, S.Harris, J.Jones, D.Keogh, S.Miller, J.D.Morgan, R.Phillips, M.Protheroe, S.Renkes, A.J.Richards, D.Whitelock, R.W.Wood a/ac J.Hale

***Aelodau
Cyfetholedig sy'n
Pleidleisio** M.Caddick, A. Amor a/ac L.Newman

***Aelodau
Cyfetholedig nad
ydynt yn Pleidleisio** R.De Benedictis

Nodiadau:

- (1) *Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*
- (2) *Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*
- (3) *Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymhell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*
- (4) *Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

(5) *Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 24 Hydref 2019

Cadeirydd: Cynghorydd S.H.Reynolds

Is-gadeirydd: Cynghorydd R.Mizen

Cynghorwyr: M.Crowley, S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, D.Keogh, S.Miller, M.Protheroe, S.Renkes, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac J.Hale

**Aelodau
Cyfetholedig sy'n
Pleidleisio:** M.Caddick

**Swyddogion sy'n
Bresennol** C.Millis, A.Thomas, I.Guy, P.Walker, D.Holder-Phillips, M.Daley, J.Haeney, A.Herbert, H.Lewis, K.Jones, A.Spooner-Cleverly, C.Davies a/ac T.Davies

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr P.A.Rees a A.J.Taylor

1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 12 Medi 2019.

Hyrwyddwr y Cymoedd

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau gan y pwyllgor ar gyfer rôl newydd Hyrwyddwr y Cymoedd. Gwirfoddolodd y Cynghorydd D Whitelock am y rôl.

2. DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU O FUDDIANT GAN AELODAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cyngorydd S ap Dafydd

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig San Joseff ac Ysgol Bae Baglan.

M Caddick

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod ganddi wyrion mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, ŵyr sy'n defnyddio cludiant ysgol, ac mae hi hefyd yn Llywodraethwr mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Y Cyngorydd M Crowley

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Y Cyngorydd S Harris

Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei bod hi'n llywodraethwr mewn ysgol yn Ysgol Gynradd Creunant.

Y Cyngorydd J Jones

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod

ganddi wyrion mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae hi hefyd yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pen Afan.

Y Cynghorydd D Keogh

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei bod hi'n llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil.

Y Cynghorydd S Miller

Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod ganddi wyrion yn Ysgol Gynradd Melin ac mae hi hefyd yn Gadeirydd y Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Melin.

Y Cynghorydd R Mizen

Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil ac Ysgol Gynradd Cwmafan.

Y Cynghorydd M Protheroe

Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Melin.

Y Cynghorydd P A Rees

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Crynallt,

ac mae ganddo wyres sy'n defnyddio cludiant ysgol.

Y Cyngorydd S Renkes

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei bod hi'n llywodraethwr yn ysgolion cynradd Baglan a Blaen Baglan.

Y Cyngorydd S Renkes

Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gwaencaegurwen.

Y Cyngorydd S Renkes

Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Eastern ac mae ganddo blant yn Ysgol Cwm Brombil.

Y Cyngorydd S Renkes

Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod ganddo wyrion mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n defnyddio cludiant ysgol ac mae ef hefyd yn llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil.

3. **COFNODION GRWP CYNGHORWYR CRAFFU EIN RHANBARTH AR WAITH (ERW)**

Roedd y pwyllgor yn falch o nodi bod yr aelodau a enwebwyd o Gastell-nedd Port Talbot wedi dod i bob cyfarfod y gwahoddwyd hwy iddynt, ac roeddent yn darparu her.

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 3 Mehefin, 2019.

4. **DERBYN I YSGOLION**

Derbyniodd aelodau wybodaeth a data mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion Castell-nedd Port Talbot, ac roeddent yn falch o nodi bod pob plentyn a oedd wedi gwneud cais am le mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi derbyn lle.

Roedd cyfanswm o 925 o ddisgyblion wedi symud, yn dilyn ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn 2018/19. Holodd aelodau a oedd pob disgybl a drosglwyddwyd wedi'i ail-leoli'n llwyddiannus ac yn unol â'i ddewis cyntaf. Esboniodd swyddogion nad oedd pawb wedi cael ei ddewis cyntaf; roedd rhai wedi cael eu hail ddewis, a rhai wedi aros yn eu hysgol wreiddiol, neu wedi dewis apelio yn erbyn y penderfyniad.

Trafodwyd yr ysgol newydd yn ardal Coed D'Arcy, a nodwyd nad oedd wedi'i ddynodi eto yn ysgol Gymraeg neu Saesneg. Disgwylid grantiau cyfalaf ar gyfer ysgolion Cymraeg yn yr ychydig flynyddoedd nesaf a fyddai'n lliniaru'r pwysau presennol ar yr ysgolion Cymraeg sy'n bod. Gobeithiwyd y byddai'r ysgol newydd yng Nghoed D'Arcy yn cael ei hadeiladu yn 2021 - byddai'r ffigurau derbyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad yn dilyn yr agoriad.

Holodd aelodau ynghylch pa gefnogaeth a oedd ar gael ar gyfer y broses apeliadau, gan nodi bod y weithdrefn apeliadau wedi'i nodi'n glir i rieni sy'n dewis apelio, a bod gwybodaeth hefyd ar gael gan swyddogion addysg a chyfreithiol.

Trafodwyd nifer uchel y disgyblion yn ysgol gyfun Dŵr y Felin, a nododd aelodau bod ffactorau amrywiol yn dylanwadu ar lle y lleolir plant, gan gynnwys dewis rhieni, brodyr a chwiorydd yn yr un ysgol, y broses apeliadau ac agosrwydd y cartrefi plant sy'n derbyn gofal.

Trafodwyd cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd ysgolion lleol yn llawn - gellid newid dalgylchoedd, gellid ehangu ysgolion, a byddai'r ysgol newydd yng Nghoed D'Arcy yn cael ei hystyried.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

5. **DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA BWRDD Y CABINET AR GYFER CRAFFU CYN PENDERFYNU (AMGAEIR ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Gweithdrefn Apeliadau Cymorth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Tynnodd swyddogion sylw at wall teipio ar dudalen 14 papurau bwrdd y Cabinet ynghylch Grŵp Trafnidiaeth y cyngor. Roedd y ffigurau sy'n ymwneud â chyfansoddiad y grŵp yn anghywir, a byddent yn cael eu diwygio cyn eu rhoi ar waith.

Eglurwyd ail gam newydd y broses apeliadau. Nododd aelodau, er y byddai'n cynyddu llwyth gwaith swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, roedd swyddogion yno i helpu teuluoedd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Blynyddol am Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Nodwyd y swm mawr o waith a oedd ynghlwm wrth nodi pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Roedd y ffigurau o flaen yr aelodau'n dryloyw iawn.

Gofynnodd aelodau a fyddai modd labelu graffiau'n gliriach ar adroddiadau dilynol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cwricwlwm i Gymru 2022 - Cyflwyniad

Derbyniodd aelodau gyflwyniad ar y cwricwlwm newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno yng Nghymru o 2022. Nodwyd y byddai pob ysgol yn dylunio'i gwricwlwm ei hun a fyddai'n addas i'r gymuned lle'r oedd yr ysgol. Roedd Grŵp Cynghori ar y Cwricwlwm wedi'i sefydlu yng Nghastell-nedd Port Talbot â'r diben o gynghori ysgolion ar ymdrin â'r gofynion sy'n hynod wahanol.

Nid oedd yn glir eto beth fyddai'r man gorffen - ac a fyddai TGAU yn dal i fodoli ac yn y blaen. Fodd bynnag, byddai angen newid y strwythur arholiadau, gan y byddai'r addysgu yn newid. Roedd cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y cynigion na fyddai'r posibilrwydd o newid Llywodraeth yn San Steffan yn effeithio arnynt.

Byddai cydweithredu rhwng athrawon ar draws ysgolion gwahanol yn cael ei annog i ehangu'r sylfaen wybodaeth, yn lle'r dull traddodiadol o fynd ar gwrs. Roedd arian dysgu proffesiynol ar gael o hyd fesul aelod o staff, os bydd ysgolion yn dal i deimlo bod cyrsiau'n fuddiol.

Nodwyd y byddai cwricwlwm disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) hefyd yn newid - byddai'r newid hwn yn cael ei gyflwyno yn y diweddariad ADY blynyddol, yn ogystal â mewn seminar i aelodau ar ddiwygiadau ADY a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror 2020.

Yn dilyn craffu, nodwyd y cyflwyniad.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Trafodwyd ymweliadau safle ar gyfer aelodau'r pwyllgor i Ysgol Bae Baglan ac Ysgol Bro Dur. Byddai'r Swyddog Craffu yn cysylltu ag aelodau i drefnu hyn.

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

CADEIRYDD

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

EDUCATION SKILLS AND CULTURE SCRUTINY COMMITTEE

(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)

Members Present:

18 December 2019

Chairperson: Councillor S.H.Reynolds

Vice Chairperson: Councillor R.Mizen

Councillors: S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, D.Keogh,
S.Miller, J.D.Morgan, M.Protheroe, S.Renkes,
A.J.Richards, D.Whitelock and J.Hale.

**Co-opted
Members** A.Amor and M.Caddick

**Officers In
Attendance** A.Thomas, C.Millis, P.Walker, R.Crowhurst,
W.John, P.Doyle, I.Guy, C.L.Davies, and
J.Woodman-Ralph

Cabinet Invitees: Councillors P.A.Rees
A.R.Lockyer

1. **LEISURE AND CULTURE SCRUTINY SUB COMMITTEE MINUTES**

That the minutes of the Leisure and Culture Sub Committee of the 29 January, 3 May, 5 September and the 22 November 2019 be noted.

2. **PRE-DECISION SCRUTINY**

The committee chose to scrutinise the following cabinet board items:

Quarterly Performance Management Data 2019-2020-
Quarter 2 Performance (1 April – 30 September 2019)

Members received the quarter 2 performance management data, complaints and compliments for the period 1 April 2019 to 30

September 2019 for Education, Leisure and Lifelong Learning Directorate as detailed in the circulated report.

The decrease in attendance figures was discussed, and members noted that the recent sickness virus in schools had impacted on these figures.

Following scrutiny, it was agreed that the report be noted.

Library Service Review

The committee received an overview of the review of the Library Service in Neath Port Talbot as detailed in the circulated report.

Clarification was given that the proposal to move the library headquarters to Ynysmaerdy School would not impact on other libraries in the area. As the headquarters would be a storage facility and would be an Education Library Resource Centre for Swansea and Neath Port Talbot.

The committee heard that the review was a comprehensive one which included community libraries. As a result officers would be meeting with all community libraries in January 2020 to find out what support they needed going forward. Members asked that their appreciation be given to library staff, communities (who took over the running of libraries) and volunteers for all the commitment and dedication they had shown over the past few years in ensuring the library service continues to thrive.

Following scrutiny, the committee was supportive of the proposals to be considered by the cabinet board.

Strategic School Improvement Programme – Proposal to establish specialist provision for secondary age pupils with Autistic Spectrum Disorder (ASD).

Information was received on the the proposal to establish a specialist provision for secondary age pupils with autistic spectrum disorder (ASD) at Dwr y Felin Comprehensive School as detailed in the circulated report.

It was highlighted that 17 consultation responses had been received all of which expressed support for the proposal.

The school would receive additional funding to support the proposal. Specialist staff would be recruited which would benefit all schools, by sharing their knowledge and practice as the strategies for children who were not statemented were the same.

Concern was expressed at the plan to allow the bus bringing children to this specialist provision into the school yard as there were already issues with vehicles accessing this area. Officer explained that measures had been put in place to ensure children's safety and that the children would be supervised in the controlled area on arrival and departure.

Following scrutiny, the committee was supportive of the proposals to be considered by the cabinet board.

3. **FORWARD WORK PROGRAMME 2019/20**

Members noted the Forward Work Programme 2019/20. It was highlighted that site visits to Bae Baglan and Bro Dur would take place on the 3 February 2020. In addition, the All Member Seminar on Additional Learning Needs Reform would take place on the 6 February 2020. All members were encouraged to attend.

4. **ACCESS TO MEETINGS**

RESOLVED: That pursuant to Section 100A (4) and (5) of the Local Government Act 1972, the public be excluded for the following items of business which involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A to the above Act.

Pre-Decision Scrutiny

The committee chose to scrutinise the following private cabinet board items:

Celtic Leisure Six Monthly Performance Review 2019-2020
and
Celtic Leisure Performance Review 2019 -20

The committee was reminded that both items had previously been scrutinised by the Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee and that they were not being considered again but the Chairperson on behalf of the committee wanted to brief the wider committee on their findings.

It was agreed that Celtic Leisure would attend the Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee on a quarterly basis and attend Education, Skills and Culture Scrutiny Committee on a six monthly basis.

Following scrutiny, it was agreed that the report be noted.

CHAIRPERSON

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

(Siambwr y Cyngor – Canolfan Ddinesig Port Talbot)

Aelodau sy'n Bresennol:

16 Ionawr 2020

Cadeirydd: Cynghorydd S.H.Reynolds

Is-gadeirydd: Cynghorydd R.Mizen

Cynghorwyr: M.Crowley, S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, S.Miller, J.D.Morgan, R.Phillips, M.Protheroe, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac J.Hale

Swyddogion sy'n Bresennol: C.Millis a/ac A.Thomas

Gwahoddedigion y Cabinet: Cynghorwyr P.A.Rees

1. **YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES AC ARBEDION DRAFFT 2020/21**

Cafwyd trosolwg o'r Gyllideb Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ac Arbedion Drafft 2020/2021, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Esboniwyd bod y gyllideb gerbron y Cynghorwyr heddiw yn gyllideb gadarnhaol o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, ond bod dal angen i'r Cyngor wneud £2.148 miliwn o arbedion er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/2021.

Cododd y Cynghorwyr y pwyntiau canlynol:

- Cyllideb AHDGO Llinell 1003 – Gwasanaethau Glanhau (Ysgolion)
Roedd y Cynghorwyr yn pryderu am yr effaith ar gyllidebau ysgolion petai'r gost hon yn cael ei throsglwyddo i ysgolion a'r effaith y gallai hyn ei chael ar safon lendid ragorol bresennol ysgolion, os byddai angen i ysgolion arbed arian i dalu am y pwysau cyllidebol ychwanegol yma. Esboniodd swyddogion fod dal angen i arbedion gael eu gwneud ac y byddai'n golygu

pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgol ond bod ysgolion yn gallu amsugno hyn. Roedd llawer iawn o ganmoliaeth wedi bod am y gwasanaeth glanhau presennol am safon glendid ac roedd ysgolion yn deall yr angen i'r safon yma barhau.

Gofynnodd y Cynghorwyr i swyddogion ystyried trosglwyddo costau glanhau yn raddol i ysgolion dros gyfnod o 3 blynedd.

- Cyllideb AHDGO Llinell 1004 – Trafnidiaeth Ysgolion – Tu Allan i'r Sir
Gofynnodd y Cynghorwyr sut gallai swyddogion ragfynegi y byddai gostyngiad yn yr angen am drafnidiaeth i ysgolion arbennig y tu allan i'r sir. Esboniodd swyddogion fod y rhagfynegiad wedi'i seilio ar niferoedd presennol y plant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir a fyddai'n cyrraedd 19 oed ym mis Gorffennaf 2020 gan derfynu eu lleoliadau.
- Cyllideb AHDGO Llinell 1001 – Ymddiriedolaeth Hamdden
Cwestiynodd y Cynghorwyr a oedd modd cyflawni'r arbediad hwn. Cadarnhaodd swyddogion fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r darparwr i fwyafu eu hincwm a byddai hyn yn arwain at leihau'r cymhorthdal.
- Cyllideb AHDGO Llinell 707 – Canolfan Gelfyddydau Pontardawe
Holodd y Cynghorwyr a oedd yr incwm a ragamcanwyd yn sgil y prosiect Sinema yn y Ganolfan yn ddichonol i arwain at leihau'r cymhorthdal. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r incwm uwch yn sgil sefydlu'r sinema a oedd i fod i agor ym mis Ionawr 2021 yn caniatáu i'r cymhorthdal leihau. At hynny, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno buddsoddiad cyfalaf, a chwiliwyd am fuddsoddiad pellach gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyfeillion Canolfan Gelfyddydau Pontardawe i gefnogi'r datblygiad.

Gofynnodd y Cynghorwyr i swyddogion ystyried lleihau'r cymhorthdal i'r Ganolfan Gelfyddydau dros gyfnod o 3 blynedd yn hytrach na 2 flynedd fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y gwaith a wnaed yn flaenorol i atgyfnerthu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi arwain at wasanaeth cynaliadwy wrth symud ymlaen.

Gofynnodd y Cynghorwyr i swyddogion sicrhau bod y pwyntiau a godwyd heddiw yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Gyllideb Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ac Arbedion Drafft 2020/2021.

CADEIRYDD

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

(Siambwr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Port Talbot)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 23 Ionawr 2020

Cadeirydd:	Cynghorydd S.H.Reynolds
Is-gadeirydd:	Cynghorydd R.Mizen
Cynghorwyr:	M.Crowley, S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, J.D.Morgan, M.Protheroe, D.Whitelock a/ac J.Hale
Swyddogion sy'n Bresennol:	C.Millis a/ac A.Thomas
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.A.Rees

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Cafwyd datganiadau o fudd gan y Cynghorwyr canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd C.M.Crowley	Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Tywyn ac Ysgol Gynradd Awel y Môr a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd S.Harris	Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Crynant a chadarnhaodd fod ganddi ganiatâd i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd D.Whitelock	Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a

phleidleisio.

Y Cynghorydd S. Ap Dafydd

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol a chanolfan chweched dosbarth Sant Joseff, ac Ysgol Bae Baglan a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Y Cynghorydd M.Protheroe

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Melin a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Y Cynghorydd R. Mizen

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Cwmafan ac Ysgol Cwm Brombil a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Hefyd mae ganddo wŷrion sy'n mynychu ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Y Cynghorydd S. Reynolds

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gwaun Gae Gurwen a chadarnhaodd fod ganddi ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Y Cynghorydd J.D.Morgan

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn gadeirydd y llywodraethwyr yn YGG Cwm Nedd a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Y Cynghorydd J.Jones

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei bod yn llywodraethwr yn Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan a chadarnhaodd fod ganddi ganiatâd i

siarad a phleidleisio.

M.Caddick

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei bod yn llywodraethwr ysgol a chadarnhaodd fod ganddi ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Y Cyngorydd
A.R.Lockyer

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn gadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Gnoll ac yn llywodraethwr yn YGG Castell-nedd a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Hefyd mae ganddo wŷrion sy'n mynychu ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot a pherthynas sy'n gweithio yn yr ysgolion hynny.

Y Cyngorydd P.A.Rees

Par: Adroddiad Presenoldeb Ysgol am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Crynallt a chadarnhaodd fod ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio.

Hefyd mae ganddo wŷrion sy'n mynychu ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot.

2. DDIWEDDARU AR LLAIS DISGYBL/CYNGOR IEUENCTID (YN AMGAEDIG YN PAPURAU BWRDD CABINET)

Derbyniodd y Cyngorwyr ddiweddariad am Lais y Disgybl a gafodd ei gynnwys yn Niweddariad y Gwasanaeth Ieuencid fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd y pwyllgor yn falch o lwyddiant Cynllun Gwobr Dug Caeredin ac Aur Agored gyda thros 400 o bobl ifanc yn ennill y wobwr a gofynnwyd i'w gwerthfawrogiad gael ei gyfleu i'r staff sy'n cefnogi'r bobl ifanc sy'n dilyn y wobwr.

Cafwyd trafodaeth am y cynnydd mewn presenoldeb yn y Clybiau Ieuencid a gofynnwyd a ellid cylchredeg y data diweddaraf am y niferoedd hyn i'r pwyllgor.

Rhodddwyd eglurhad bod fformat y data a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad wedi'i gasglu a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru ac nad oedd data'n cael ei ddefnyddio i gymharu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn.

Amlygwyd bod y ddarpariaeth clybiau ieuencid bresennol wedi'i darparu ar sail angen ac wedi'i sefydlu mewn ardaloedd difreintiedig; yn hanesyddol, roedd rhai clybiau wedi'u sefydlu mewn ardaloedd na fyddent yn bodloni'r meini prawf presennol ond byddai'r clybiau hynny'n parhau.

At hynny, mae arolygon/mapio'n digwydd bob 3 blynedd ac yn ystyried grwpiau sy'n cael eu trefnu gan sefydliadau gwirfoddol. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r grwpiau hynny i'w cefnogi er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Cafwyd cadarnhad mai dim ond ar draul colli darpariaeth sy'n bodoli eisoes y gellid trefnu unrhyw glybiau ieuencid newydd, am nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i gynyddu darpariaeth bresennol y Cyngor. Roedd cyllid bob amser yn bryder yn enwedig mewn perthynas â'r ffaith bod darpariaeth grant gan Lywodraeth Cymru'n dod ar sail un flwyddyn ar y tro. Mae hyn yn golygu bod cynllunio hirdymor yn anodd am fod y meini prawf ar gyfer pob ffrwd gyllid yn gallu newid ac mewn rhai achosion, mae'n dod i ben. Ail-nododd y pwyllgor mor bwysig oedd hi bod y gwasanaeth hanfodol hwn yn parhau.

Gofynnwyd am ddata pellach ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET (heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant). Esboniodd swyddogion mai nod y gwasanaeth ieuencid yw gweithio gyda'r bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu â'u gwasanaethau.

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, bydd swyddogion yn ystyried nodi'r rheswm pam nad oedd effaith ar y cymoedd.

Ar gais y Cyngorwyr, dylid ystyried gwahodd person ifanc i ddod yn aelod craffu o'r pwyllgor hwn.

Ar ôl craffu, cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Penderfynodd y pwyllgor graffu'r eitemau canlynol i fwrdd y cabinet:

Presenoldeb Ysgol

Cafodd y Cynghorwyr wybodaeth a data mewn perthynas â phresenoldeb disgyblion Castell-nedd Port Talbot ac absenoliaeth barhaus fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

Cafwyd trafodaeth am y gostyngiad mewn presenoldeb o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd a holwyd ai ar ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig oedd yr effaith yn bennaf. Esboniodd swyddogion fod nifer o ysgolion wedi'u heffeithio tua diwedd 2019 gan Norofeirws a gafodd effaith ar blant a staff ond nad oedd unrhyw ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cau. Hefyd, gall fod lefel uwch o absenoldeb heb awdurdod mewn ysgolion nad ydynt mewn ardaloedd difreintiedig oherwydd bod nifer uwch o wyliau'n cael eu cymryd. Ar gais y Cynghorwyr, byddai data yn y dyfodol yn cynnwys yr ardal a'r rheswm dros yr absenoldeb.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch mor bwysig oedd hi bod Cynghorwyr sy'n llywodraethwyr ysgol yn cadw codi mater presenoldeb mewn cyfarfodydd cyrff llywodraethu fel ei fod ar agendâu ysgolion yn gyson.

Ar ôl craffu, cytunwyd y dylid nodi'r adroddiad.

Caeau Chwarae ac Ystafelloedd Newid Lôn Longlands

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth am y cynnig i ddatgan bod y caeau chwarae a'r ystafelloedd newid yn Lôn Longlands, Margam, Port Talbot, yn ofer i ofynion strategol a gweithredol parhaus y Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

Cafwyd trafodaeth am y diffyg cyfleusterau chwaraeon yn yr ardal a gofynnwyd i hyn fod yn ystyriaeth yn ystod cynigion ynghylch defnyddio'r safle yn y dyfodol. Esboniodd swyddogion y byddai unrhyw benderfyniad ynghylch defnyddio'r safle yn y dyfodol yn dod o dan gylch gorchwyl y Bwrdd Cabinet Adnewyddu a Chynaliadwyedd.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i fwrdd y cabinet eu hystyried.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2019/20**

Rhodddwyd cadarnhad y byddai'r ymweliad safle i ysgolion yn cael ei gynnal ar 3 Chwefror ac nid 27 Ionawr 2020 fel y nodwyd yn y Flaenraglen Waith.

CADEIRYDD

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 23 Gorffennaf 2020

Cadeirydd: Cynghorydd S.H.Reynolds

Is-gadeirydd: Cynghorydd R.Mizen

Cynghorwyr: J.Jones, S.Miller, J.D.Morgan, R.Phillips,
M.Protheroe, S.Renkes, D.Whitelock a/ac
J.Hale

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** A.Evans, A.Thomas, S.Burgess, S.Blewett,
M.Daley, C.Furlow-Harris, T.Davies,
A.Manchipp, C.Davies a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr P.A.Rees

1. STRATEGAETH ADFERIAD

Cyflwynwyd strategaeth ddrafft i'r aelodau ar sefydlogi, y cyfnod rhwng ymateb ac adferiad, yn dilyn cychwyniad COVID-19. Roedd y strategaeth yn nodi fframwaith cyffredinol a fyddai'n cefnogi ymagwedd gyson a chydlynol wrth i'r cyngor symud tuag at adferiad. Nodwyd bod y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i bob Pwyllgor Craffu i dderbyn sylwadau cyn cyflwyno i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020 i'w chymeradwyo.

Rhoddodd swyddogion drosolwg byr o gynnwys y strategaeth, gan esbonio ei bod wedi'i rhannu'n dair adran a oedd yn cynnwys edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod cyfnod ymateb yr argyfwng, edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb a map ffordd o gamau gweithredu.

Wrth edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y cyfnod ymateb, tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gamau allweddol wedi'u cymryd gan gynnwys sefydlu gwasanaeth cyfathrebu saith niwrnod yr wythnos fel y gellid anfon canllawiau gan Lywodraeth y DU,

Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru pan oeddent ar gael. Ychwanegwyd bod y Cyngor wedi cau gwasanaethau i helpu i leihau lledaeniad y feirws ac wedi newid y ffordd yr oedd rhai gwasanaethau hanfodol yn gweithredu er mwyn gweithredu'n ddiogel, er enghraifft y gwasanaeth sbwriel. Soniodd swyddogion fod rhan gyntaf y strategaeth hefyd yn nodi'r newidiadau a wnaed mewn perthynas ag arweinyddiaeth a llywodraethu, gan gynnwys defnyddio'r ddarpariaeth Cam Gweithredu Brys a nodir yn y Cyfansoddiad, i sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn dal i gael eu gwneud yn ystod y cyfnod ymateb.

Esboniwyd ail ran y strategaeth i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb i gyfnod sefydlogi, sef y cam cyn symud i'r cyfnod adfer. Esboniwyd bod tri maes wedi'u nodi fel canolbwynt wrth i'r Cyngor symud ymlaen:

1. Y Rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu
2. Sefyll gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor
3. Deall ac ymateb i'r effaith y mae'r firws wedi'u cael ar ddinasyddion, sefydliadau a busnesau ledled Castell-nedd Port Talbot

Ychwanegwyd bod yr ail ran hefyd yn nodi'r newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud o ran arweinyddiaeth a llywodraethu, yn ogystal â rhai o'r risgiau a'r materion a nodwyd y bydd angen eu rheoli wrth i'r cyngor fynd ati i roi'r strategaeth ar waith.

Cyflwynwyd trydedd ran y strategaeth fel map ffordd o gamau gweithredu a oedd wedi'i fframio ar sail system goleuadau traffig, a oedd yn nodi sut i symud o sefyllfa o gyfyngiadau symud llwyr, drwy'r system goleuadau traffig, i sefyllfa lle mae gwasanaethau'n gweithredu unwaith eto. Nodwyd bod nifer o'r gwasanaethau ar y map ffordd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant.

Gofynnodd yr Aelodau am adborth ar sut roedd gweithio gyda phobl ifanc o bell wedi mynd, a nodwyd bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol, er bod gan y gwasanaeth ieuencid staff a gafodd eu hadleoli i'r gwasanaeth 'Safe and Well', felly roedd yn rhaid i weddill y staff reoli'r nifer y gellid ymdrin â hwy yn y gwasanaeth ieuencid, gan flaenoriaethu'r bobl ifanc fwyaf diamddiffyn. Ychwanegwyd bod y staff wedi cwblhau galwadau ffôn wythnosol i sicrhau bod y bobl ifanc yn

teimlo'n ddiogel a'u bod yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a oedd ganddynt fel pryder. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod system hunangyfeirio hefyd wedi'i sefydlu i bobl ifanc ei defnyddio, fel y gallent gyfeirio eu hunain at y gwasanaeth pe baent yn teimlo dan bwysau. Nodwyd bod Swyddogion yn fodlon ar lefel yr ymgysylltu, fodd bynnag roedd manteision cwrdd wyneb yn wyneb â phobl ifanc ar goll.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd unrhyw fanylion am drefniadau teithio ar gyfer disgyblion wedi'u cadarnhau, yn enwedig a fyddai angen i ddisgyblion wisgo mygydau wyneb ar fysus ysgol a sut byddai'r mygydau wyneb yn cael eu prynu. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol ar gyfer ailagor ysgolion ym mis Medi, fodd bynnag nid oedd rhai meysydd wedi'u datblygu hyd yn hyn, gan gynnwys cludiant o'r cartref i'r ysgol felly nid oedd y canlyniad yn hysbys hyd yma. Ychwanegwyd mai'r disgwyliad oedd pe bai mygydau wyneb yn cael eu mandadu, byddai hynny ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd (Cyfnodau Allweddol 3 a 4) yn unig ac nid disgyblion ysgolion cynradd. Er nad oedd swyddogion yn ymwybodol o sut byddai'r mygydau wyneb yn cael eu prynu, nodwyd eu bod yn ymwybodol bod tua 3,000 o ddisgyblion oedran uwchradd yn cael eu cludo bob dydd, ddwywaith y dydd, felly byddai angen darparu 6,000 o fgydau wyneb bob dydd, ac amcangyfrifwyd y byddai hynny'n gost sylweddol o oddeutu £4miliwn. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r swyddogion yn adrodd yn ôl i'r aelodau unwaith y byddent yn ymwybodol o'r sefyllfa cludiant o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y golofn 'werdd' ar y Map Ffordd yn wag ar gyfer y blynyddoedd cynnar, y gwasanaeth ieuencid a gwasanaethau addysg oedolion, a gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn oherwydd na chafwyd diweddariad diweddar gan Lywodraeth Cymru. Soniodd yr aelodau hefyd eu bod yn ymwybodol y bu cynnydd mewn problemau iechyd meddwl gyda phobl ifanc a gofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaethau wrth symud ymlaen i fynd i'r afael â'r materion hyn cyn i ysgolion agor ym mis Medi.

Darparodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd gwasanaeth a grybwyllwyd, gan gynnwys y gwasanaethau dysgu cymunedol a oedd yn gweithredu ar hyn o bryd drwy Microsoft Teams a thrwy ddarpariaethau technolegol eraill, ac oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol dwy fetr a oedd ar waith, nid oedd yn debygol y byddai darpariaeth wyneb yn wyneb yn cael ei ailgyflwyno yn y dyfodol agos.

O ran darparwyr gofal plant, nodwyd bod 79 allan o 129 o ddarparwyr

ar hyn o bryd yn gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot (tua 61%) ond tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau bod pob un o'r 129 o ddarparwyr yn dod yn ôl i wasanaethu'r cymunedau lle maent yn gweithredu.

Mewn perthynas â chyllid, dywedwyd bod gan y cyngor ddwy ffrwd ariannu sylweddol:

1. Cymorth haf i ddysgwyr diamddiffyn, sy'n cynnwys gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion ac asiantaethau eraill megis yr heddlu ac iechyd, i nodi'r dysgwyr mwyaf diamddiffyn.

Cadarnhawyd bod £75,000 wedi'i neilltuo i ddarparu gofal seibiant a chymorth tebyg arall dros yr haf.

2. Gweithgareddau cyfoethogi'r haf a fydd yn cymryd lle SHEP, gan y byddai'n anodd cynnal rhaglen mor helaeth o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol. Yn hytrach, darperir gweithgareddau cyfoethogi'r haf o chwech o gyfleusterau'r cyngor dros bythefnos ac fe'i targedir at ysgolion sydd â phroffil Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) o dros 17%. Cadarnhawyd bod tua £46,000 wedi'i ddyrannu i ddarparu'r gweithgareddau.

Nododd yr Aelodau y darperir cefnogaeth iechyd a lles emosiynol o bell i blant ac y byddai'n parhau dros yr haf i'r rheini y mae angen cymorth o'r fath arnynt. Ychwanegwyd bod y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn weithredol o hyd, ond ei fod hefyd yn cael ei ddarparu o bell.

2. ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES - CYNLLUNIO CYFLWYNO GWASANAETH AC ADFER CYFREDOL (CYFLWYNIAD)

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad ar y ddarpariaeth gwasanaethau a'r cynllunio adferiad presennol gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Castell-nedd Port Talbot, drwy gydol y cyfyngiadau symud, wedi darparu taliad wythnosol o £19.50 i bob plentyn cofrestredig a oedd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim (PYDd) i sicrhau eu bod yn cyrraedd mwy o blant yn y gymuned. Nodwyd bod bagiau casglu a mynd wedi'u darparu yn y gorffennol, fodd bynnag 20% yn unig o'r disgyblion PYDd d defnyddiodd y rhain a bellach, drwy'r cynllun talu, roedd 95% o ddisgyblion PYDd yn derbyn prydau bwyd. Cadarnhaodd swyddogion fod cyfanswm o £1.1 miliwn wedi'i

dal i deuluoedd cymwys hyd yma ac y byddai hyn yn parhau drwy'r haf ac o bosib i bythefnos cyntaf y tymor newydd.

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad a ddosbarthwyd, mae'r Swyddogion yn disgwyl y byddai bron pob aelod o staff yn gallu dychwelyd i'r gwaith ym mis Medi, er bod 12 aelod o staff addysgu'n gwarchod ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai asesiadau risg yn cael eu cynnal gan bob ysgol i egluro'r trefniadau ar gyfer y staff addysgu a oedd yn gwarchod, fel eu bod yn gallu dychwelyd i'r gwaith ym mis Medi. Ychwanegwyd y bydd ysgolion yn cynnal asesiadau risg ar gyfer pob gweithgaredd ac y byddai hynny rhywbryd ar ddiwedd mis Awst (gyda dyddiad cau o 27 Awst 2020).

O ran cynhwysiant a lles, dywedwyd y rhoddwyd cymorth i ddisgyblion drwy gydol y cyfyngiadau symud; parhawyd â hyn gyda chymorth gwasanaeth TG y cyngor, a roddodd ddarpariaethau ar waith yn gyflym iawn ac a roddodd yr offer hanfodol i'r timau i'w galluogi i barhau i wasanaethu'r plant diamddiffyn yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y gwasanaeth cynhwysol wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu'r gofrestr dysgwyr diamddiffyn a bod y staff wedi cydweithio fel rhan o grŵp amlasiantaeth, i drafod darpariaeth, mynd i'r afael â materion a sicrhau bod y gofrestr yn cael ei diweddarau'n wythnosol. Ychwanegwyd bod y gwaith hwn yn bwysig iawn oherwydd y pryderon a oedd gan y staff ynghylch plant diamddiffyn gartref; roedd y gofrestr yn cynnwys system CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) i fesur risgiau'r plant a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn yn wythnosol, fel bod y staff yn gallu rhoi digon o gefnogaeth ar waith lle'r oedd ei angen.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfleusterau hamdden a oedd yn cynnwys llyfrgelloedd, Parc Margam a Hamdden Celtic. Nodwyd bod y staff wedi cymryd ymagwedd ofalus iawn wrth ailagor llyfrgelloedd a Pharc Margam a'u bod bob amser wedi dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd swyddogion sylw at y rhaglen ailagor ar gyfer llyfrgelloedd a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad, yn ogystal â sôn am drefniadau ailagor Parc Margam, yr ymdriniwyd â hwy fesul cam.

O ran Hamdden Celtic, soniwyd bod yr aelodau, ar 17 Mawrth 2020, wedi cytuno i gynnal proses gaffael a oedd yn cynnwys cwblhau gwahoddiad i dendro am ddarparu gwasanaethau hamdden yng Nghastell-nedd Port Talbot yn unol â manyleb bresennol y gwasanaeth ac i gychwyn ar broses dendro fel y nodir yn yr

adroddiad; nodwyd bod y broses yn parhau ac y bu cyfres o gyfarfodydd gyda'r ymgynghorydd, a oedd wedi bod yn heriol i'w gwneud o bell. Ychwanegwyd bod 95% o'r dogfennau'n barod a chynhigiwyd eu bod yn mynd i'r farchnad ym mis Medi 2020, er mwyn caffael i sicrhau darparwr newydd, gyda'r bwriad o fynd yn ôl at Aelodau ym mis Ionawr 2021 i gael penderfyniad terfynol.

Oherwydd yr argyfwng, dywedwyd ei bod hi'n anodd rhoi cynlluniau ar waith i ailagor cyfleusterau oherwydd gallai amgylchiadau newid, ond dywedodd swyddogion eu bod yn deall y byddai Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi'n fuan y gallai cyfleusterau hamdden ailagor o 10 Awst 2020. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y swyddogion wedi gofyn i Hamdden Celtic am gynllun agor, a fyddai'n cael ei rannu'n gamau ac yn cynnwys yr asesiadau risg angenrheidiol; ychwanegwyd, pe bai'r cyhoeddiad yn digwydd, y byddai'r prif gyfleusterau trefol yn agor yn gyntaf ac o fewn wythnos, y byddai disgwyl i'r cymoedd a chyfleusterau cymunedol ailagor.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod glanhau ac arlwyo yn wasanaethau allweddol wrth sicrhau bod gan bobl hyder yn y broses ailagor ysgolion yn ddiogel ac mewn modd hylan. Soniwyd y byddai'r prosesau'n parhau i dymor yr hydref, yn enwedig o ran cyfarpar amddiffyn personol.

Gofynnodd yr Aelodau sut roedd staff wedi cadarnhau pa ddisgyblion yr oedd angen offer ychwanegol arnynt yn ystod y cyfyngiadau symud, yn enwedig y Chromebooks a'r gliwiaduron. Esboniwyd bod gan ysgolion gryn ddealltwriaeth o anghenion disgyblion, felly nhw fu'n gwneud y penderfyniadau ynghylch ble roedd angen darparu'r cyfarpar. Soniwyd bod y buddsoddiad ychwanegol, a oedd ar gael drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru, yn golygu bod cannoedd o liniaduron a Chromebooks wedi cael eu dosbarthu i'r plant. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod 1,500 o liniaduron, iPads a Chromebooks yn cael eu storio ar hyn o bryd, a fyddai'n cael eu darparu i ysgolion ac roedd cynllun ar waith i archebu gwerth £1.3miliwn o offer TG o'r un ffynhonnell grant. Nodwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag ysgolion i benderfynu pa offer yr oedd ei angen, gydag ysgolion uwchradd yn gobeithio darparu Chromebook i bob plentyn i'w alluogi i gynllunio ar gyfer dysgu parhaus, ond soniodd swyddogion y byddai angen cadarnhau cost hyn cyn y gellid ei gadarnhau. O ran ysgolion cynradd, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch pa lefel o ddarpariaethau y byddai eu hangen ar bob cyfnod allweddol a chydabuwyd

nad oedd angen i bob plentyn gael darn o gyfarpar yr un ar hyn o bryd.

